

papur



priordy

Yna dywedodd yr
angel wrthynt,
“Peidiwch ag ofni,
oherwydd wele yr wyf
yn cyhoeddi i chwi y
newydd da am
lawenydd mawr a
ddaw i’r holl bobl:



Luc 2:10

Dewiswyd gan Mari Grug

Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn

Rhifyn 317
PAPUR RHAGFYR 2018

Nodion Nadolig ein Gweinidog

BRAINT oedd derbyn gwahoddiad i bregethu yng Nghapel Cymraeg Harrow, ddiwedd Tachwedd.

Mae gwahoddiad gan unrhyw un o Gapeli Cymraeg Llundain yn golygu cyfle i deithio ar y trên y diwrnod cynt a chael diwrnod o grwydro'r ddinas fawr! Rwy'n dwlu ar Lundain. Symudodd brawd fy mam o Glydach i Lundain pan oedd yn saer coed ifanc 18 oed i wneud ei brentisiaeth gyda chwmni'n adeiladu Maes Awyr Heathrow ar y pryd. O ganlyniad, mae cangen o'r teulu wedi hen sefydlu yn y ddinas, a minnau wedi bod yn gyfarwydd ag ymweld â nhw ers pan oeddwn yn blentyn.

Oes, mae rhywbeth ynglŷn â'r ddinas sy'n fy llenwi â chyffro wrth gamu o'r trên ym Mhaddington. Efallai bod hyn i'w briodoli i'r ffaith nad oes neb yn fy 'nabod yno! Mae angen cyfnodau o fod yn *inconspicuous* ar bawb o bryd i'w gilydd - hynny yw, ac eithrio'r wraig ddi-enw a waeddodd yn uchel o blith y cannoedd a oedd yn croesi Pont Westminster yr un pryd â mi b'nawn Sadwrn diwethaf, 'Smo chi'n weinidog yn Sir Gâr?' !

Wrth edrych i fyny at Eros yn ei ysblander ar Sgwâr Piccadilly a'r haul wedi hen fachlud, cefais fy nallu braidd gan oleuadau Nadolig Stryd Regent - sioe ryfeddol o angylion enfawr yn hongian mewn gwisg o fylbiau neon o'r naill ochr o'r stryd i'r llall, o Sgwâr Piccadilly i Stryd



Rhydychen. Roedd degau ohonynt. Ond nid cymaint ag sydd o gyfeiriadau at angylion yn yr Ysgrythurau, mae tua 300 o'r rheini!

Mae'r ddelwedd o angel yn un cyffredin iawn rhwng y crefyddau i gyd, ond ein dealltwriaeth ni fel Cristnogion yw mai 'negeseuydd' Duw yw angel. Mae'r gair 'angel' yn dod o'r gair Groeg 'angelos' sy'n golygu negesydd. Mae angylion yn arwydd o ddiddordeb Duw ynom ni ac yn gyfrwng datguddio ewyllys Duw, yn cario neges Duw i'r byd. A dyna'r union beth a ddigwyddodd adeg y Nadolig cyntaf.

COFIWN y Nadolig hwn am y neges fwyaf a gyhoeddwyd i'r byd erioed, oddi wrth Dduw, a thrwy'r angylion, fod y Meseia wedi'i eni... a'i ewylllys wedi'i gyflawni.

O cenwch, angylion,
cenwch, gorfoleddwch
O cenwch, chwi holl ddinasyddion y nef:
cenwch "Gogoniant
i Dduw yn y goruchaf!"
O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn, Grist o'r nef!



Gweddiwn

Arglwydd, y Nadolig hwn
tywys ni mewn dychymyg a ffydd
i wrando cân yr angylion,
i ddilyn arweiniad y seren,
i ganfod dy ogoniant ,
yn yr un bach wedi'i rwymo mewn dillad baban
ac yn gorwedd mewn preseb,
ac yng nghwmni bugeiliaid a doethion,
i syrthio i lawr a'i addoli.



Amen

DARLLENIAU

Mis Gorffennaf	Darlleniad
Wythnos 1	Eseia 64:1-9
Wythnos 2	Eseia 40: 1-11
Wythnos 3	Ioan 1:6-8; 19-28
Wythnos 4	Luc 1:26-38
Bore Nadolig	Luc 2:8-20
Gŵyl San Steffan	Luc 2: 22-40
Wythnos 5	Luc 2: 22-40

**CASGLIAD OLAF AM Y FLWYDDYN
Y SUL OLAF AR GYFER DERBYN EIN CYFRANIADAU
AM ELENÍ YW
9 Rhagfyr 2018**

BLWYDDIADUR

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAG 2019

yn cynnwys

Dyddiadur, Darlleniadur, Suliadur a Llawlyfr

Pris - £7.50

Rhaid archebu drwy Sulwyn Thomas, os gwelwch yn dda



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

MAIR LEWIS

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

**Yn ymuno a Chymdeithas y Tair Eglwys (Y Tabernacl,
Talog a Foelcwan)**

Nos Iau, 6 Rhagfyr 2018 – 7 – Ffestri'r Tabernacl

Alun Harries

Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin



CARTREF PLAS Y DDERWEN

GWASANAETH NADOLIG

gyda'n Gweinidog

Bore Gwener, 7 Rhagfyr 2018 am 11am

Croeso cynnes i bawb

GWASANAETH NADOLIG CYLCH MEITHRIN MYRDDIN

yn

Y PRIORDY

Prynhawn Sul, 16 Rhagfyr 2018 am 3 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb





NADOLIG YR OFALAETH 2018



DYDD SUL 9 RHAGFYR 2018

CANA

Prynhawn Sul am 1.30

Oedfa Nadolig dan ofal yr Ysgol Sul

Parti i ddilyn

Y PRIORDY

Prynhawn Sul am 3.30

Oedfa Nadolig yr Eglwys gyfan

Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn

DYDD SUL 16 RHAGFYR 2018

CANA

Oedfa Nadolig yr Ofalaeth am 10

Paned i ddilyn

EGLWYS CRIST

Nos Sul am 7.30

Plygain Merched y Wawr

DYDD SUL 23 RHAGFYR 2018

PRIORDY

Oedfa Llith a Charol yr Ofalaeth am 10

Paned i ddilyn

BANCYFELIN

Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned

Gorymdaith drwy'r pentref yn cychwyn am 6

ac Oedfa dan olau kannwyll yn y Capel

Paned i ddilyn

BORE NADOLIG

Oedfa Undebol i'r teulu cyfan yn Y Priordy am 9 y bore gyda'n Gweinidog a'r

Bobl Ifainc

DYDD SUL 30 RHAGFYR 2018

Oedfa Undebol i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 10 gyda'n Gweinidog

Croeso i bawb

Menna Elfyn...

NADOLIG FY HLENTYNDOD

PAN fyddaf yn meddwl am Nadolig fy mhlentyndod rwy nôl yn y Mans ym Mhontardawe yn Heol y Gelli. Byddwn wrth fy modd yn cerdded y strydoedd ar gyfer ymarferiadau'r Nadolig ac yn



syllu ar y
coed
Nadolig yn

y tai y cerddwn heibio iddynt. Byddai pawb bryd hynny yn ymfalchïo yn eu

coed Nadolig gyda'u goleuadau lliwgar ac yn gwneud yn siŵr fod y llenni wedi eu tynnu yn ôl er mwyn i bawb eu gweld. Byddem yn gludio cadwynau papur lliwgar ac yn eu hongian yn y nenfwd ac roedd mam yn un lew am wneud addurniadau ei hun, yn orenau gyda chlôfs wedi eu sticio ynddynt neu brennau diddorol gyda chelyn arnynt. Rwy wastad wedi teimlo'n wael am y ffaith ein bod yn parchu celyn adeg y



Nadolig ond yn ei hwfftio pan fydd yr Ŵyl ar ben. Mae ei sglein yn haeddu ei lle drwy'r flwyddyn, greda i !

Un o'r atgofion gorau sydd gennyf yw digwyddiad yn y capel noson neu ddwy cyn y Nadolig sef gorymdaith yn y tywyllwch o'r festri i'r capel. Byddem fel plant yn cario llusern yr un wedi ei goleuo ac yn canu '*Tua Bethlem dref / Awn yn fintai gref / Ac addolwn Ef*' wrth gerdded yn araf i mewn i gefn y capel ac yna ar hyd y ddwy ale. Dyna gyffro oedd cyrraedd y sedd fawr a'r pulpud a'r lle o dan ei sang.



Byddem ar yr aelwyd yn agor ein anrhegion ni ar noswyl y Nadolig am fod Plygain yn y capel am saith o'r gloch y bore wedyn. Dyna ryfeddod arall oedd cyrraedd y Plygain yn y tywyllwch a dod allan i olau dydd. Ein mwynhad wedyn cyn cinio oedd cael mynd i mewn i dŷ drws nesa i weld yr anrhegion yr oedd Siôn Corn wedi eu gadael i'r bechgyn yno. A chael syndod bob tro.



Digonedd o roddion o bob math. Dyna pryd imi ddechrau cwestiynu pam roedden nhw yn cael *mwyl* o anrhegion na thri phlentyn y Mans. Doedd Siôn Corn mae'n amlwg ddim yn credu mewn tegwch na chydraddoldeb.

Ond er nad oedd llawer o anrhegion gennym yn blant, a chyflog gweinidog yn ddigon main, roedd yna lawenydd a hwyl i'w gael ar yr aelwyd. Byddai mam-gu a oedd yn byw gyda ni bob amser yn cael y darn tair ceiniog arian wedi ei guddio yn y plwm Nadolig a hithe wrth ei bodd



mai hi a'i gafodd ac nid un ohonom ni.

Ni wawriodd arni inni gael hwyl yn gweld ei mwynhad wrth dwrio i ganol y pwdin cyn ei ddarganfod. Byddem yn chwarae gêmâu bwrdd, dros yr Ŵyl ac roedd tennis bwrdd yn un o'n hoff gêmâu ni bryd hynny a gêm bwrdd teithio Prydain. Ie, wel...

Ar sgwâr Pontardawe o flaen y Co-op y cofiaf weld delw doniol o Siôn Corn a dechrau holi fy mrawd am y dyn rhyfedd hwnnw a lwyddai i ddiflannu heb inni ddiolch iddo. Siawns na ddylem wneud oedd fy sylw i. Ond chwerthin wnaeth hwnnw, troi ei gefn arnaf a bant ag ef ar ei feic. Dyna pryd ... wel mae'r gweddill fel maen nhw'n ei ddweud yn hen hen hen hanes!



HWYL DROS YR ÂYL!

CWIS Y DINASOEDD – PA RAI YDYN NHW?

Beth am roi cynnig arni? Croeso i chi anfon eich cynigion atom

Atebion yn ein rhifyn nesaf

Diolch i Gareth Gravell am y gwaith paratoi



1



2



3



4



5



6



7


STILLE NACHT

AR NOSWYL Y NADOLIG 1818, sef 200 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, cerddodd **Joseph Mohr (1792-1848)**, tad Catholig, y tri chilomedr o'i gartref yn Oberndorf bei Salzburg yn Awstria i gwrdd â'i ffrind **Franz Grüber (1787-1863)** yn nhref gyfagos Arnsdorf bei Laufe.



Roedd angen carol arno ar gyfer yr Offeren Ganol Nos ar Noswyl y Nadolig rai oriau'n hwyrach ac yn gobeithio y gallai'i ffrind, organydd a meistr côr yr

eglwys, osod miwsig ar gyfer cerdd a gyfansoddodd ryw ddwy flynedd yn gynharach. Cyfansoddodd Grüber y felodi ar gyfer y gerdd mewn ychydig o oriau. Ar gyfer gitar a chôr y crewyd y gerddoriaeth.




Canodd y ddeuddyn Stille Nachr am y tro cyntaf yn yr Offeren yn Eglwys Sant Nicholas yn Oberndorf. Pam tybed mai ar gyfer y gitâr yn hytrach na'r organ y crewyd y gerddoriaeth? Mae sawl eglurhad wedi'u cynnig Un yw bod organ yr eglwys wedi chwythu'i phlwc gan fod tamprwydd cyson o'r afon gerllaw wedi'i gwneud yn amhosibl i Grüber, yr organydd, gael unrhyw nodyn ohoni! Un arall yw bod Mohr eisiau cân wreiddiol y gallai'i chwarae ar ei hoff offeryn, sef y gitâr.



Beth bynnag yw'r gwir, o fewn ychydig o flynyddoedd, roedd trefniannau o'r garol yn ymddangos mewn eglwysi yn Archesgobaeth Salzburg a chantorion gwerin o Ddyffryn Ziller Valley'n mynd â'r cyfansoddiad ar deithiau o gwmpas Ewrop.

Daeth *Stille Nacht* yn hynod o boblogaidd a chafodd ei chyfieithu i sawl iaith. A heddiw, fel 200 o flynyddoedd yn ôl, bydd unwaith eto'n cael ei chanu mewn eglwysi, capeli, ysgolion ac yn yr awyr agored drwy'r byd i gyd.

'*Cân syml pentref*' yw disgrifiad Leopold Kohr o'r garol. Yn Oberndorf y ganed Kohr, gŵr a fu'n byw yn Aberystwyth yn y chwedegau ac un, fel y dywed E Wyn James (*Carolau a'u Cefndir*) a 'ymdaflodd i'r frwydr dros annibyniaeth i Gymru ac '*Cân syml pentref*' yw disgrifiad Leopold Kohr o'r garol.



Cafwyd sawl cyfieithiad o'r garol i'r Gymraeg. Dyma gyfieithiad **T H Parry Williams (1887-175)** fel y mae'n ymddangos yn **Caneuon Ffydd (Rhif 467)**.

Dawel nos, sanctaidd yw'r nos,
cwsg a gerdd waun a rhos,
eto'n effro mae Joseff a Mair;
faban annwyl ynghwsg yn y gwair,
cwsg mewn gwynfyd a hedd,
cwsg mewn gwynfyd a hedd.

Dawel nos, sanctaidd yw'r nos,
wele fry seren dlos;
daw'r bugeiliaid a'r doethion i'r drws;
faban annwyl, yr wyt ti mor dlws,
cwsg mewn gwynfyd a hedd,
cwsg mewn gwynfyd a hedd



Elinor Wyn Reynolds.....

Ces hyd i bwt wedi'i dorri allan o bapur newydd yng nghanol papurau fy nhad-cu'n ddiweddar ac arno englyn gan Gwilym R. Tilsley o dan y teitl 'Dymuniadau Nadolig'. Dyma'r englyn:



**Daeth yr Ŵyl, a da'i threulio – i feddwl,
I faddau, i gofio;
Ym mwyniant pob dymuno
Nac aed a gaed byth o go'.**

Dechreuais feddwl am y ddau air, 'maddau' a 'chofio'. Mae digon o angen maddeuant yn ein byd ni heddiw a chofio'r pethau da hefyd. Ond yn ogystal, mae angen *anghofio* – ry'n ni'n llawer rhy barod i ddal dig y dyddiau yma. Dyma gerdd i'r Nadolig.

Maddau a chofio

**Weithiau, does dim modd anghofio
am y llid fu'n ein niweidio,
mae'r dagrau'n sychu wedi'r wyl
a dim ond pethau brau sy'n weddill i'w hanwylo.**

**Weithiau, mae'n haws anghofio
a gadael hen gynnen neu fai i fynd heibio
mae'r briwiau'n gwella, y clwyfau'n ceulo,
a daw maddau i'n haelwyd ni heno.**



**Weithiau mae'n rhaid anghofio
er lles y galon, er mwyn diwyllio,
gadael fynd, gwenu, dod dros y brifo,
ac yn yr angof hwn mae'r gobaith am ddechrau eto.**

CYMDEITHAS Y CYMOD

MILITAREIDDIO YSGOLION – TRAFODAETH



Nos Lun 10 Rhagfyr 2018 – 7.30

FESTRI'R TABERNACL

COLLI GWEINIDOG A HEDDYCHWR

Bu farw'r Parchedig Islwyn Lake, y gweinidog a'r heddychwr, yn 93 oed, Yn dod yn wreiddiol o Wdig, Sir Benfro, bu'n ddisgybl i D J Williams yn Ysgol Ramadeg Abergwaun cyn mynd i Brifysgol Cymru Bangor,

Bu'n weinidog yn ardaloedd Treorci, Tanygrisiau, Abertawe a Machynlleth, cyn ymgartrefu yn nhref Porthmadog.

Bu'n heddychwr amlwg, ac roedd yn un o aelodau hynaf Cymdeithas y Cymod. Roedd hefyd yn un o gyn-Lywyddion Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.



COFIO GWENALLT

Y BARD DACH UWCH BEIRDD Y BYD

PAN fu farw Gwenallt hanner can mlynedd yn ôl i'r mis hwn, ar noswyl Nadolig 1968 yn Ysbyty Pen-glais, Aberystwyth, roedd ei lyfr emynau'n agored wrth ochr ei wely. Gallwch fentro mai at emynau Pantycelyn ac Ann Griffiths y byddai'n troi. Cafodd emynau'r ddau, yn enwedig Pantycelyn, ddylanwad mawr arno. Un o'r emynau y byddai Gwenallt yn myfyrio llawer uwch ei ben yn ystod ei ddyddiau olaf oedd '*Cymer Iesu, fi fel 'rydwyl'*'.



Ganed David James Jones (Gwenallt) ar 18 Mai 1899 ym Mhontardawe. Symudodd y teulu'n fuan wedyn i'r Allt-wen gerllaw yng Nghwm Tawe a chymerodd ei enw barddol oddi wrth y pentref dur ac alcarn hwn. Ond roedd Sir Gâr wledig yn ogystal â Sir Forgannwg ddiwydiannol yn rhan o'i brofiad cynnar. Daeth ei rieni o Sir Gâr ac wrth ymweld â'i berthnasau yn ardal Rhydcymerau (roedd D J Williams yn perthyn iddo) daeth i gysylltiad â diwylliant traddodiadol Gymraeg y gymdeithas amaethyddol a harddwch cefn gwlad. Bu sôn droeon yr hoffai Gwenallt gael ei gladdu yn Nhalylychau ynghanol y bywyd gwledig lle roedd ei wreiddiau - ond '*rhy bell*' meddai am y fan honno. Llanbadarn Fawr, tybed? Bu'n meddwl am hynny ond yn Aberystwyth mae'n gorwedd, yn agos at fedd ei hen athro, T Gwynn Jones.

Cafodd Gwenallt ei addysg ym Mhontardawe, Ysgol Sir Ystalyfera (lle roedd y Dr Kate Roberts yn athrawes arno), a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth

Roedd yn Wladgarwr a Christion ond brwydrodd yn hir iawn a chaled i gyrraedd y safbwyntiau hyn. Yn ystod ei ieuenctid roedd yn Farcsydd ac yn Anffyddiwr. Daeth yn Farcsydd yn rhannol o ganlyniad i wrthryfela'n erbyn creulondeb y gyfundrefn gyfalafol ac yn anffyddiwr ar ôl i'w dad gael ei ladd ym 1927 gan fetel tawdd mewn damwain yng ngwaith Gilbertson ym Mhontardawe. Ym 1943 ysgrifennodd Gwenallt ei gyffes i'r Gyfrol **Credaf**, llyfr o dystiolaeth Gristnogol. Wrth sôn am angladd ei dad yn **Credaf**, mae'n dweud:

Yn y bregeth angladdol pan ddywedodd y Gweinidog mai hyn

oedd ewylllys Duw, tywelltais oddi mewn i mi holl regfeydd yr ‘haliers’ ar ei bregeth, ac ar ei Dduw, a phan ganasant ar lan y bedd, ‘Bydd myrdd o ryfeddodau’ cenais innau yn fy nghalon, ‘The Red Flag’.

Yn ystod y Ryfel Byd Cyntaf roedd yn wrthwynebydd cydwybodol a charcharwyd ef yn Wormwood Scrubs a Dartmoor.

Roedd Gwenallt wedi'i fagu yn yr Eglwys Bresbyteraidd lle roedd ei dad yn flaenor. Ond teimlodd i'r byw angharedigrwydd rhai pobl yn yr eglwys yr oedd yn aelod ohoni pan oedd yn wrthwynebydd cydwybodol a chwerwodd wrth y rhai a ddialodd ar ei dad oherwydd safiad y mab.

Ar ôl y rhyfel aeth Gwenallt yn fyfyrwr i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a graddio yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wedi cyfnod byr fel athro yn Y Barri, fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn Adran Gymraeg ei hen goleg, lle arhosodd nes iddo ymddeol.

Ymhell cyn iddo ysgrifennu'i **Gyffes ym 1943** mae'n debyg fod ganddo afael sicr ym mhethau mawr y Ffydd a bod y sicrwydd hwnnw wedi'i ennill ar ôl cyfnod chwerw o siom ac amheuaeth. Ond teimlai na fedrai alw ei hun yn Gristion os nad oedd yn aelod o Eglwys Crist. Roedd yn bendant fod yn rhaid iddo ymaelodi yn rhywle. Wel, doedd e ddim yn Babydd a hawdd deall ei amharodrwydd i ailymuno â'r Hen Gorff. Penderfynodd ei gysylltu ei hunan â'r Eglwys Esgobol yn Llanbadarn Fawr. Derbyniodd fedydd Esgob yn Ionawr 1944 ym Mhalas Abergwili ond ni fu'n gartrefol yn yr Eglwys Esgobol. Ym 1957, penderfynodd ymaelodi yn y Tabernacl, eglwys y Methodistiaid Calфинаidd, lle roedd ei briod a'i ferch, Mair, yn aelodau a bu'n aelod neilltuol o ffyddlon. Rhoddai bwys mawr ar wasanaeth y Cymun. Yn ôl ei Weinidog, J E Meredith, yr hyn a'i tynnodd yn ôl at Fethodistiaeth yn y pen draw oedd Pantycelyn ac Ann Griffiths - yn enwedig Pantycelyn - a'r llef a'r profiad a'r dyheu oedd yn eu hemynau.

Enillodd Gwenallt y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1926 yn Abertawe ar y testun *Y Mynach*. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym 1928 yn Nhreorci, parodd ei awdl anghonfensiynol *Y Sant ffrwgd* llenyddol pan ataliwyd y Gadair. Enillodd y Gadair am yr eildro ym 1931 ym Mangor. Ond daeth i amlygrwydd fel bardd yn bennaf ar sail nifer o gerddi byrrach yn **Ysgubau'r Awen** (1939), **Cnoi Cil** (1942), **Eples** (1951), **Gwreiddiau** (1959) a **Coed** (1969) a gyhoeddwyd ar ôl iddo farw. Yr argraffiad safonol o'i waith barddonol yw **Cerddi Gwenallt; Y Casgliad Cyflawn** (gol.

Christine James, 2001). Dywedodd J E Meredith ei bod yn anodd peidio ag ystyried Gwenallt '*fel bardd Cristnogol mwyaf Cymru er diwedd y ddeunawfed ganrif*'. A go brin fod unrhyw fardd arall yng Nghymru'n cael ei ddyfynnu gymaint yn y pulpud na Gwenallt.

Ysgrifennodd ddwy nofel, sef **Plasau'r Brenin** (1934) sy'n esbonio'i benderfyniad i beidio ag ymuno yn y rhyfel, a **Ffwrneisiau** (nofel anorffenedig) (1982) a gyhoeddwyd wedi iddo farw lle mae'n ymdrin â'i gefndir cynnar. Fel ysgolhaig hefyd cyfrannodd yn niferus a sylweddol i hanes ein llên ac i astudiaeth lenyddol. Roedd yn un o aelodau cynnar yr Academi Gymreig a fe oedd golygydd cyntaf ei chylchgrawn *Taliesin*.

Mae plac i'w goffâu ar y tŷ yn Wesley Terrace, Pontardawe, lle cafodd ei eni.



A dyma ddyfynnu cerdd sydd yng nghyfrol Christine James y daeth ar ei thraws mewn casgliad teipysgrif o gerddi Gwenallt. Mae hi'n esbonio fod y llinell agoriadol, 'esgob ein heneidiau' yn cyfeirio at Grist ac ystyr wreiddiol 'esgob' yn yr Eglwys fore, sef 'goruchwyliwr, gwarcheidwad':

EMYN

Esgob ein heneidiau,
Gwrando ar ein cri,
Clyw ein hocheneidiau
Yma atat Ti.

Pan fydd anghrediniaeth
Yn ein blino ni,
Dyro inni luniaeth
Bwrdd Dy Gymun Di.

Difa ein cnawdoldeb,
Dangos in Dy wedd,
Cip ar dragwyddoldeb
Rhwyng y crud a'r bedd.

Yn ein dyddiau prinion
Gwna ni'n gryf a glew,
Ymladd â'n gelynion,
Llariog nerth y llew.

Pan fo'n traed yn sengi
Ar ymylon bedd,
Rho i ni, cyn trengi,
Hedd, Dy berffaith hedd.

DCDC O'R PRIORDY

Y Gair yn ei amrywiol ffurfiau oedd y pwnc dan sylw yn y rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol a ddarlledwyd ar Nos Sul 18 Tachwedd 2018 ar S4C, gyda'r canu a'r gwestai, Rhian Evans, un a gollodd ei golwg yn ifanc, yn dod o Gapel y Priordy, Caerfyrddin.



Soniodd Rhian Evans, fel y mae'r Peiriant Braille a dderbyniodd yn rhodd gan Faer y Dref yn ei galluogi i rannu emynau â chleillion ledled Cymru. Clywsom hefyd am yr ymgyrch lwyddiannus y bu hithau, Beti-Wyn a chyfeillion eraill yn rhan ohoni i gyhoeddi fersiwn Braille newydd yn Gymraeg o'r Salmau a'r Testament Newydd yn 2010. Mae'r englyn gan Ysgol Farddol Caerfyrddin a gynhoeddwyd adeg lansio'r cyhoeddiad newydd yn cyfleu'i hunion

deimladau i'r dim

Ail agor fy nau lygad - y mae ef
Dan fy mys yn siarad
A dotiau adnodau nhad
Yn harddach bob cyffyrddiad.

Esboniodd Rhian fod anabledd yn gallu rhoi cryfder i rywun mewn ffordd arall. Mae modd gweld mewn mwy nag un ffordd, er enghraifft, drwy lygad y meddwl a hefyd lygad yr ysbryd. Mae ffydd Rhian a'i hawch am fywyd yn ysbrydoliaeth i ni oll Dyfynnodd adnod yn Salm 121 i amlygu mai ffynhonnell ei chymorth yw'r Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear.



Roedd y canu dan arweiniad Meinir Richards gyda Meirion Wynn Jones wrth yr organ a chafwyd eitem gan Gôr Llanddarog a'r Cylch. Ymwelwyd hefyd â Chanolfan 'Byd Mary Jones' yn Llanycil ar lan Llyn Tegid a chlywed am stori gynhyrfus Mary Jones

trwy lygaid disgyblion Ysgol Gynradd O M Edwards, Llanuwchllyn.

Diolch am ganu cynulleidfaol ystyrlon ac i Rhian am gyfraniad nodedig iawn, yn ôl ei *harfer*.

MERCHED Y WAWR CAERFYRDDIN

PLYGAIN

NOS SUL - 16 RHAGFYR 2018 - 7.30

EGLWYS CRIST, CAERFYRDDIN



Organydd

Y Parchedig Wyn Maskell

RHAGLEN: £3 Elw at Gymorth Cristnogol

Cyngerdd Clwb Drama a Chôr Myrddin



**Dewch i fwynhau doniau a thalent arbennig Clwb Drama
Menter Gorllewin Sir Gâr a Theatr Genedlaethol Cymru a
Chôr Myrddin yn ein cyngerdd Nadolig.**

Nos Fawrth 11 Rhagfyr 2018 am 6

Y Priordy

Mynediad: £3

Lluniaeth ysgafn i ddilyn



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

BORE IAU 24 Ionawr 2019

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



STAMPIAU NADOLIG Y POST BRENHINOL 2018

Mae Stampiau Nadolig y Post Brenhinol eleni'n cynnwys gwahanol ddelweddau o'r blwch postio coch traddodiadol. Comisiynwyd yr arlunydd Andrew Davidson o Stroud yn Swydd Gaerloyw i ddylunio'r gyfres.



FEL ARFER, BYDD STAMPIAU DOSBARTH 1AF AC 2IL DDOSBARTH AR WAHÂN O'R FORWYN FAIR A'I PHLENTYN HEFYD AR GAEL MEWN SWYDDFEYDD POST. FELLY COFIWCH OFYN AMDANYNT



**Y dyddiadau postio olaf a argymhellir er mwyn i bost gyrraedd mewn pryd ar gyfer y Nadolig yw:
Dydd Mawrth 18 Rhagfyr ar gyfer post Ail Ddosbarth a
Dydd Iau 20 Rhagfyr ar gyfer post Dosbarth Cyntaf**



**CARDIAU NADOLIG
CYMORTH CRISTNOGOL**

*ar werth
yn y Priordy*

CYMANFA GAROLAU

Nos Sadwrn, 15 Rhagfyr am 7 yn Y Priordy
Côr Llanpumsaint Parti Harmoni ac eraill

Gwyn Nicholas
Arweinydd y Gân

Meirion Wynn Jones
Organydd

Band
Y Priordy

Beti-Wyn
Cyflwynydd

Dr Hefin Jones (Caerdydd)
Llywydd



Mynediad am ddim, gwneir casgliad yn
ystod y noson at elusen **Amser Justin
Time** er cof am Alison, merch Ann Griffiths,
un o'n ffyddloniaid yn y Priordy



CRISTION

Cyhoeddiad deufisol – ar ei newydd wedd!

Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas



‘Agor y Gair’



*Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin*

Boreau Mercher 27 Chwefror a 6, 13, 20 Mawrth 2019

11.00 tan 12.00

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Manylion pellach

☎01267 237696 ☎01267 236658

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com



ZAC HYMAN YN YR YSGOL SUL



Tudalen Ieuenctid@Priordy



Zak o Awstalia

Diolch yn fawr iawn i bawb a roddodd groeso arbennig i Zak. Roedd yn hyfryd i gael ei gwmni yn Y Priordy. Gobeithio y cawn gyfle i gwrdd ag e rywbryd eto

*GWASANAETH
NADOLIG
PRYNHAWN SUL,
RHAGFYR 9 AM
3.30 O'R GLOCH*



Pêl-Droed a Phêl-rwyd MIC

Dydd Sadwrn, Ionawr 19
Enwau i Luned cyn gynted â phosib

Dyddiadur

Rhagfyr 2

Ysgol Sul
Ymarfer yn y
festri

PIP ymarfer yng
Nghapel
Penuel

Rhagfyr 9

Ymarfer i bawb
yn y Capel am
10
Gwasanaeth
Nadolig 3.30

Ymarfer i bawb
yn y Capel am
10
Gwasanaeth
Nadolig 3.30

Rhagfyr 16 - 30

Dim Ysgol Sul

Dim PIP

*Ond cofiwch fod croeso i chi ddod i'r
gwasanaeth!*

Bore Nadolig

Oedfa fer am 9 o'r gloch

Dewch ag un o anrhegion Siôn Corn gyda
chi i'r cwrdd!

*Nadolig Llawn i chi i gyd!
Beti-Wyn*



AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



Y GYMDEITHAS gydag ALUN WYN BEVAN



CWRDD EGLWYS

i gyflwyno

POLISI PREIFATRWYDD Y PRIORDY

Bore Sul, 9 Ionawr 2019 ar ôl yr Oedfa



YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI

Dr Huw Michael

Croeso i chi gysylltu ag e
am wybodaeth bellach



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 6 Mawrth 2019 am 7 yn y Ffestri

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY / CANA A BLAENORIAID BANCYFELIN

Nos Fercher, 20 Mawrth 2019 am 7 yn Ffestri'r Priordy



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CYRDDAU CHWARTER 2019 AR DDYDD IAU YM MHOB ACHOS



14 Mawrth 2019, (10.30am a 1.30pm)	Nebo Llanpumsaint
9 Mai 2019 (4.00pm a 7.00pm)	Y Priordy
12 Medi 2019 (4.00 a 7.00pm)	Henllan Amgoed
8 Tachwedd 2019 (10.30am a 1.30pm)	Hermon

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

GAIR GAN Y DR MERERID HOPWOOD

Annwyl Bawb

Dim ond gair bach o newyddion da i roi gwybod NA FYDD Y FFAIR ARFAU yn dod i Gymru yn 2019!



Rhaid bod ein canu ni'n OFNADWY!

Diolch i bawb am gefnogi'r gwrthdystiad dros y blynyddoedd dwethaf.




Rydym yn cydymdeimlo gyda phobl Birmingham lle bydd y ffair yn cael ei chynnal ac yn eu hannog i sefyll yn gadarn.

Ymlaen!

Mererid

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS
YN Y CYNTEDD**



Y TYST

50c y rhifyn!

Cysyllter â Sulwyn Thomas

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



Gareth Gravell....

**Y GYMDEITHAS
5 Tachwedd 2018**

MAE pawb sy'n gyfarwydd â gweld a chlywed Alun Wyn Bevan yn traethu ar amryw o bynciau'n sôn am ei ddull heintus o adrodd hanesion a digwyddiadau ac yn cael eu swyno gan ei ddull didrafferth, ffraeth ac ymddiddanol ynghyd â'i wybodaeth eang o'r pwnc dan sylw. Dyma'n



union a gawsom yn ail gyfarfod y Gymdeithas wrth i ni groesawu'r cyn brifathro, cyflwynydd, sylwebydd a'r personoliaeth cyfryngol i'n cwmni.

Wedi cyflwyniad cynhwysfawr gan ein Gweinidog cawsom ddarlleniad llesol o Salm 24 gan Dennis Jones.

Y disgwyl oedd i ni glywed storïau o fyd rygbi gan mai dyna yw prif ddiddordeb

Alun ac yn wir fe gawsom hynny ond hefyd wled o storïau doniol am yr hen gymeriadau a'r ardal lle'i magwyd. Dechreuodd y noson drwy sôn sut y cafodd Huw Llywelyn Davies, y sylwebydd rygbi, ei gyflwyno fel Arthur Llywelyn Jenkins mewn noson gymdeithasol yn Nantyffyllon! Felly dyna osod naws y noson!

Dechreuodd ei daith ym Mrynaman sef ei bentref genedigol a anfarwolwyd yn y llyfr *Wild Wales* gan George Borrow ac esboniodd mai'r hen enw ar Frynaman oedd y Gwter Fawr.



Un o enwogion Brynaman oedd Watkin Hezekiah Williams sef Watcyn Wyn. Cawson stori ddiddorol iawn amdano'n cystadlu am y Goron yn Eisteddfod

Chicago ym 1893. Ysgrifennodd gerdd am George Washington ac mae'n debyg mai dim ond dau gystadleuydd oedd. Er mwyn bod yn holloll deg anfonwyd am y Prifardd Hwfa Môn i fod yn feiriniad. Gyda llaw, cerdd yn Saesneg oedd yr ymgais arall! Enw barddol Watcyn Wyn oedd y Gwter Fawr ac wrth grynhofi sylwadau gofynnodd y

beiriniad arall o Americanwr beth oedd ystyr y Gwter Fawr. Ar ôl ychydig o grafu pen dyma Hwfa Mon yn dweud, 'Wel I suppose it could be translated to *The Grand Canyon*'.! Clywsom hefyd fel y daeth Watcyn Wyn, awdur y geiriau, 'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod... yn brifathro adnabyddus - diolch i'w gydweithwyr yn ei helpu i gael addysg ac yntau wedi dechrau gweithio dan ddaear yn ifanc iawn.

Soniwyd wedyn am y gweithfeydd ym Mrynaman, pyllau, fel y Wellington, gyda glo o'r ansawdd gorau yn y byd.. Allforiwyd y glo hwn i America ac roedd yn cael ei neilltuo ar gyfer prosiectau lle'r oedd angen y glo gorau!

Person talentog arall o'r ardal oedd Richard Williams - "Gwydderig", englynwr o fri a enillodd wobrau mewn Eisteddfodau Cenedlaethol. Fel sawl un arall, aeth dros Fôr Iwerydd i America i osgoi bywyd caled De Cymru ac ymnsefydlu yn nhre Scranton ger Wlikes-Barre .Ym mynwent y dref honno gwelir nifer fawr o feddau a chyfenwau fel Jones ac Evans arnynt. Roedd angen hefyd arbenigedd y Cymry ar yr Americanwyr er mwyn cloddio'r pyllau glo. Ynghyd â hyn, roedd y cyflogau dipyn yn uwch a safon bywyd yn well. Yn sicr, roedd yna frwdfrydedd ac egni yn perthyn i'r ymfudwyr hyn o Gymru a hefyd o Iwerddon.

Cafwyd hanes Dai "Tarw" Jones, aelod o dîm Rygbi Cenedlaethol Cymru a drechodd Seland Newydd ar 16 Rhagfyr 1905, Enilliodd y tim hwn hefyd y Goron Driphlyg a'r Gamp Lawn deirgwaith. Hwn oedd y tro cyntaf i dim o Seland Newydd ddod i Brydain, Roedd hi'n daith o chwe wythnos ac erbyn cyrraedd roedd y tim wedi chware 27 o gemau gan ennill pob un yn rhwydd. Yn y gêm hon y canwyd ein Hanthem Genedlaethol yn gyhoeddus am y tro cyntaf fel ymateb i Hakka bygythiol y Crysau Duon. Roedd y cyffro mor fawr fel y caewyd dociau Abertawe a Chaerdydd er mwyn i gymaint â phosib o gefnogwyr allu dod. Ymhlith y cymeriadau lliwgar yn y tim roedd. Bert Winfield, Terry Morgan a Willy Llywelyn Gwyn Nicholls, a'r maswr Percy Bush, cyn Lew. Wel, cael a chael oedd hi wedi'r gic gyntaf. Wedi hanner awr daeth y cais gyntaf i Gymru ar ôl defnyddio strategaeth i ddrysu'r Crysau Duon yn



llwyr - ac yn wir dyna oedd yr unig sgôr a Chymru'n fuddugol o dri phwynt i ddim. Cymru felly'n bencampwyr y byd!

Cafwyd sôn wedyn am Winifred Coombe Tennant, un o'r teulu a adeiladodd gamlas yn croesi'r afon Nedd. Roedd hi'n heddychwraig, radicalwraig, ffeminyddes a chenedlaetholwraig a'i thad, George Edward Pearce-Serocold yn ddyn tu hwnt o gyfoethog a heddychwyr mawr. Pendefynodd George ddefnyddio'i arian i deithio'r byd a phan oedd yn Rhufain ym 1862, priododd Anne Richardson, merch o Langland. Wedi marwolaeth Anne priododd ei chyfnither, Mary Clarke Richardson, a symud i fyw i Stroud lle ganwyd Winifred. Derbyniodd Winifred ei haddysg yn Ewrop a chwrddodd â'i gŵr, Charles Coombe Tennant ym



Munich. Roedd e 22 o flynyddoedd yn hŷn na hi. Symudon nhw i fyw i dŷ heb fod yn bell oddi wrth gartref Alun Wyn Bevan. Roedd teulu Charles, ei fam Gertrude yn benodol. yn cymysgu gyda'r crach, beirdd, artistiaid a gwleidyddion mwyaf y cyfnod. Priododd Dorothy, ei chwaer, neb llai na H.M Stanley. Ganwyd mab i Charles a Winifred o'r enw



Christopher. Roedd yn Gymro Cymraeg ond cafodd ei ladd yn Ypres ym 1917. Bu farw Winifred mewn gwth o oedran ym 1956. Yn gymeriad, arbennig iawn gwnaeth gymaint dros hawliau merched a

charcharorion a chefnogai ddiwylliant ein gwlad ac annibyniaeth i Gymru.

Daeth noson ddiddorol, lwyddiannus arall i ben a braf oedd gweld Festri'r Priordy yn llawn, gyda chyfeillion o Gana a Bancyfelin wedi ymuno â ni, i wrando ar feistr wrth ei waith!

OEDFA ARBENNIG

Daeth cynulleidfda gref i oedfa arbennig yn y Ffestri ar Nos Sul 4 Tachwedd pan groesawyd Zak Hyman atom. Gŵr ifanc yw Zak sy'n canolbwyntio ar weinidogaeth ymhlith plant, pobl ifainc a theuluoedd ifainc yn Eglwys Gymraeg Melbourne, Awstralia, Mae hefyd yn



astudio am radd yng Ngholeg Diwinyddol Melbourne. Roedd ein Gweinidog wedi cwrdd ag e am y tro cyntaf yn ystod ei hymweliad â'r capel ym Melbourne ym mis Gorffennaf.

Roedd yr oedfa yng ngofal Beti-Wyn a Zak ar y cyd a braf oedd gweld ein cyfaill o Awstralia' mor barod i ddefnyddio peth Cymraeg ar ôl treulio amser byr yn unig yng Nghymru. Cydiodd mewn thema gyfoes yn ei fyfyrddod, sef poeni neu bryderu. Mae pob un ohonom yn cael teimladau o bryder ar adegau – rhai personol a chymunedol. Maent yn gallu troi'n orbryderon weithiau ac yn anodd i'w rheoli, Ond newyddion da oedd gan Zak. Esboniodd fel y gallwn fwrw'n pryderon ar Dduw a'u cyfnewid am heddwoch dwfn, dim ond i ni ymddiried ynddo a throi ato'n gyson, yn enwedig trwy weddi..

Bu cyfle i ni fel unigolion feddwl yn ddwys am ein pryderon mewn ffurf ymarferol iawn Fe'n gwahoddwyd i gydio mewn carreg i gynrychioli'n pryderon, ei gollwng mewn dysgl o ddŵr a'i chyfnewid am adnod printiedig i'n helpu i leihau a goresgyn yr hyn sy'n ein poeni. Bu'r weithred yn gymorth nid yn unig i ni wynebu'n pryderon o ddifrif ond hefyd i amlygu persbectif newydd Duw arnynt.



Diolch i Zac am ein hysbrydoli ac am oedfa wahanol' ond hyfryd a bendithiol iawn. Roedd Eira Phillips wrth y piano a'r cyhoeddwr oedd Wyn Tegryn Evans. Diolch hefyd i'r gwragedd am baratoi paned i bawb ar ddiwedd yr oedfa a thrwy hynny'n ein galluogi i gynnal sgwrs â'n gilydd cyn ymadael.

FFARWELIO Â ZAK!

Gweddï oedd thema'r Oedfa arbennig a gynhaliwyd ar Fore Sul 18 Tachwedd 2018 – y diwrnod y bu rhaid i ni ffarwelio â Zak Hyman, un a ddaeth yn ffrind triw i ni a hynny mewn cyfnod mor fyr..

Cyn yr Oedfa roedd Zak wedi dosbarthu sribyn o bapur i bawb a'u gwahodd i ysgrifennu arno rywbeth yr hoffent weddïo drosto. casglodd y sribynnau yn ystod yr oedfa a llunio cadwyn weddi ohonynt



Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan ein Gweinidog a Zak a June Thomas oedd yn gyfrifol am y darlleniad.

Daeth y plant o'r Festri i ymuno â ni ar ddiwedd yr oedfa a gweddïodd Zak dros y gadwyn weddi.

Cyflwynwyd sgarff yn lliwiau Cymru i Zak gan ein Gweinidog a chyflwynodd yntau groes o bren olewydd i'r Priordy i ddiolch ini am ei gael. Mynegodd ei werthfawrogiad yn y Gymraeg a chafodd gymeradwyaeth anhygoel.

Bu'n Oedfa arbennig a theimladwy iawn a Zak yn ein gadael gyda'n dymuniadau gorau i'r dyfodol iddo yn Awstralia - wrth ei waith yn Eglwys Gymraeg Melbourne a'i gwrs yn y Coleg Diwinyddol.

DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr iawn i Mair Baston a David am baratoi Torch yr Adfent ar ein cyfer unwaith eto eleni. Rydym yn gwerthfawrogi'r gymwynas yn fawr.



TAITH ADNODDAU'R NADOLIG

Ymwelodd Taith y Cyngor Ysgolion Sul â Festri'r Priordy ar Nos Lun 26 Tachwedd 2018 gan roi cyfle i ni i gyd i weld a phrynu amrywiaeth o anrhegion Nadolig lliwgar ar gyfer pob oed, Roedd y Priordy'n un o chwe chanolfan ar hyd a lle Cymru a gafodd gyfle i groesawu'r Daith.





NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

Y Gymdeithas

Un o aelodau'r eglwys fu'n diddori'r Gymdeithas y tro hwn. Ceiropractydd yw Anna Lee ac fe ddaeth atom i sôn am ei gwaith. O hyn ymlaen, bydd unrhyw aelod sydd â chefn tost yn sicr o gysylltu â hi!



Ffurflenni GDPR

Y bwriad yw canolbwyntio ar sicrhau



ymateb gan bob aelod yn ystod y mis. Dan y drefn newydd, rhaid inni gael caniatâd i gysylltu â phawb a chynnwys eu henwau yn Adroddiad 2018. Araf fu'r ymateb o ran llenwi'r ffurflen hyd yn hyn, ac mae'n debyg mai'r prif reswm yw bod pobl wedi anghofio neu heb ddeall yn iawn pam fod angen gwneud hyn. Gobeithio y bydd ymgyrch mis

Rhagfyr yn bwrw'r maen i'r wal!

Agor y Llyfr

Ymwelwyd ag Ysgol y Gelli ddwywaith yn ystod mis Tachwedd. Y tro cyntaf adroddwyd hanes Joseff a'r ail dro, stori'r mab a aeth ar goll. Roedd yn beth braf gweld aelodau newydd yn ymuno â'r criw.



Lansio Cyfrol

Ar y Sadwrn cyn Sul y Cofio, daeth Harri Parri i siop Palas Print i gael ei holi am ei lyfr diweddaraf, 'Cannwyll yn Olau' – sef hanes y Parch John Pulston Jones – y pregethwr dall. Llyfr da i'r hosan Dolig!

TUDALEN BLAEN

Rheswm Mari Grug dros ddewis yr adnod yn Efengyl Luc ‘Yna dywedodd yr angel wrthynt.....’

Mis Rhagfyr 1986 ac roedd hi'n amser ar gyfer Cwrdd Nadolig y plant yng Nghapel Bethel Mynachlog-ddu.

Doeddwn ni ddim yn ddigon hen i fod yn rhan o'r Ysgol Sul, felly bu'n rhaid

setlo â sedd yn y Capel gyda Dad. Roeddwn i yno i wyllo fy chwaer hynaf yn cymryd rhan yn ei drama Nadolig gyntaf tra oedd Mam gartref gyda'm chwaer fach 4 mis oed.



Alla i'm dweud fy mod yn cofio'r achlysur gan mai plentyn 2 flwydd oed oeddwn i, ond mae'n debyg nad oeddwn ni'n hapus iawn i eistedd yn llonydd wrth ymyl fy nhad! O'n i'n

methu deall pam nad oeddwn i'n cael dilyn fy chwaer i'r sedd fawr, a chael canu wrth ei hymyl a finnau'n gwybod pob gair. Cafodd Dad dipyn o waith fy narbwyllo mai moment fawr Elin o'dd y prynhawn Sul hwnnw - ei llwyfan cyntaf hi gyda'r Ysgol Sul a byddai fy nhro i'n dod rywbryd eto.

Ceisiodd Dad ei orau glas i'm cadw yn fy sedd ond o'r hyn dwi'n ddeall methiant fu'r ymgais, a'r flwyddyn honno yng nghwrdd Plant Capel Bethel ymddangosodd un angel fach arall wrth i'r bugeiliad warchod eu praidd.

Wrth i filoedd o blant bach baratoi i gymryd rhan yn eu gwasanaeth Nadolig cyntaf eleni, gan gynnwys fy mab dwy flwydd oed, tybed a fyddan nhw mor awyddus i fod yn y sedd fawr? Amser a ddengys!



MILIWNYDD CYNTAF CYMRU

DAVID DAVIES

18 Rhagfyr 1818 – 20 Gorffennaf 1890

YDYCH chi wedi awchu bod yn filiwnydd erioed? Mae sawl un ohonyn nhw o gwmpas heddiw - ffrwyth cynnyrch hapchwarae fel y Loteri gan amlaf.

Ond pwy oedd y miliwnydd cyntaf yng Nghymru, dywedwch chi? Wel, mae digon o le i gredu mai David Davies Llandinam oedd hwnnw! A deucanmlynedd yn ôl i'r mis hwn y cafodd ei eni.



Codi o garbiau i gyfoeth fu hanes Davies. Meddylwch am y cefndir. Yn cael ei fagu, yr hynaf o naw o blant, ar aelwyd cymharol dlawd. Yn gadael yr ysgol yn 11 oed. Yn dringo o fod yn llifiwr coed a gweithiwr tir di-nod i safle o rym ar frig cymdeithas yng Nghymru fel un o brif fentrwyr y Chwyldro Diwydiannol. Mae'n stori anhygoel ac yn werth ei darllen.



Ennill ei ffortiwn drwy reilffyrdd, glo a dociau'r Barri wnaeth Davies. Aeth popeth ddim yn rhwydd iddo bob tro, cofiwch. Roedd hyd yn oed yn rhaid iddo yntau, y craffaf o ddynion, gael tipyn o lwc! Mae stori amdano'n tynnu'i hanner coron olaf o'i boced wrth i'w weithwyr geisio'n ofer ddod o hyd i 'wythien lo dda' yn y Rhondda Fawr ac yn dweud wrthynt: '*Dyma'r cwbl sy gen i. Cymrwch e*'. A dyma'r gweithwyr yn cynnig wythnos arall o waith yn ddi-dâl iddo ac yn taro ar un o wythiennau glo gorau'r

byd ar eu diwrnod olaf! Dechreuodd y glo du droi'n aur du mewn dim amser. Mae'r gweddill yn hanes!

Mae'n debyg fod ynni a dyfalbarhad Davies yn chwedlonol. Does ryfedd fod ei feddargraff yn cynnwys yr adnod: '*Beth bynnag yr wyt yn ei wneud, gwna â'th holl egni*' - ond yn yr iaith fain mae'r geiriau. Fel plentyn ei gyfnod, annog ei gyd-Gymry i droi at y Saesneg er mwyn profi'r 'bara gwyn' oedd ei ble, hyd yn oed o lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol!



Mae'n rhyfedd meddwl fod y pyllau glo wedi cau, fel llawer o'r system rheilffordd a grëwyd gan Davies, a bod Dociau'r Barri wedi cilio'n arw. Eto, mae cyfoeth Davies yn dal i fod yn werthfawr.


Meddyliwch am weithgareddau dyngarol yntau a'i deulu, yn enwedig yr wyresau, Gwendoline (1882-1951) a Margaret (1884-1963) a'u gwaddol bwysig i hyrwyddo addysg a'r celfyddydau yng Nghymru.



DYWEDODD rhywun un tro fod chwaeth wael yn creu mwy o filiwnyddion na chwaeth dda. Braf cael enghraifft o'r gwrthwyneb ambell dro!



RHYWBETH I'R HOSAN!



DIM OND LLAIS
gan Alan Llwyd

Y Prifardd Alan Llwyd yn trafod hanes ei fywyd a'r dylanwadau ar ei waith fel bardd, beirniad llenyddol a chofiannydd

Barddas:£12.95 (Clawr Meddal)

LLYTHYR O DDIOLCH



Canolfan Weinyddu Eglwys Tywi
Heol Llansteffan
Tre Ioan
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3BP

Diolch yn fawr iawn i chi am eich rhoddion caredig i Apêl Cynhaeaf y Banc Bwyd Mae haelioni pobl yn ein cymuned at eraill sydd angen cymorth bob amser yn codi'n calon ac yn ein hysbrydoli ac yn ein galluogi i gynnig cymorth a gobaith i bobl leol mewn cyfnod o argyfwng.

Diolch eto

Julia Amsbury
Cynorthwy-ydd Banc Bwyd

Derbyniwyd tystysgrif gan y Banc Bwyd i nodi'n cyfraniad

RHYWBETH ARALL I'R HOSAN NADOLIG!




HUD A LLED - HUNANGOFIANT EIRIAN WYN

Awdur: Eirian Wyn, Aled Islwyn

Cofiant cynhwysfawr Eirian Wyn, y gweinidog a'r consuriwr poblogaidd o Frynaman. Mae'n cynnwys hanes ei blentyndod pan gafodd afiechyd yn ifanc iawn, a chanfuwyd hefyd ei fod yn dioddef o dyslecsia

Y Lolfa: £9.99



NADOLIG: Y STORI

*I'w pherfformio yn y Gymraeg a'r Saesneg
i bobl Caerfyrddin yng Nghapel y
Bedyddwyr Saesneg*



Profiad Nadolig Unigryw

Cerddoriaeth .. Asynnod Byw Fidio ... Actorion Lleol

10 – 15 Rhagfyr 2018

	11.00	12.00	14.00	15.00	16.00
Llun 10.12.18	Eng	Cym	Cym	Eng	
Mercher 12.12.18	Cym	Eng	Eng	Cym	
Gwener 14.12.18	Eng	Cym	Cym	Eng	
Sadwrn 15.12.18	Cym	Eng	Eng	Cym	Eng



DYDD MAWRTH (11.12. 18) a DYDD IAU (13.12.18)

*Archebu ar gyfer grwpiau'n unig
(Archebu ar gyfer ysgolion o 9.30 ymlaen)
MYNEDIAD AM DDIM*

*Mae angen stiwardiaid. Os ydych yn gallu helpu (ee. am
ddiwrnod neu ddau) cysylltwch â Joan Thomas neu Siân
Cassell mor fuan â phosibl
os gwelwch yn dda*

Y DDIWEDDAR ELUNED JONES

Cofiwn yn annwyl iawn am y ddiweddar Eluned Jones a fu farw'n dawel yn Ysbyty Glangwili ar 19 Hydref 2018. Yn enedigol o Drelech, fei magwyd yn rhan o deulu diwylliedig iawn, a'i thad yn fardd gwlad ac yn gynganeddwr o fri.

Wedi mwynhau cryn lwyddaint yn yr ysgol, mynychodd Goleg Hyfforddi Athrawon yng Ngogledd Swydd Stafford a chyfarfod ag Emyr mewn oedfa yn y Capel Cymraeg yn Stoke on Trent. Ar ôl priordi, bu'n byw mewn gwahanol fannau, yng Nghaerdydd, ym Mhontantwn cyn ymgartrefu yng Nghaerfyrddin, yn Nglan Tywi ym 1965.

Bu'n dal cysylltiad â chapel ym mhob man y bu'n byw - yn Stoke ond Trent, yn Ebeneser, Caerdydd, yng Nghrwrbin ac yna yn Y Priordy.

Cofiwn am Eluned fel gwraig urddasol a charedig a chanddi'r awydd i wneud ei gorau ym mhob peth. Roedd yn gyfaill da a thriw, ac yn garedig i bawb. Yn wraig ddiwylliedig a dawnus mewn mwy nag un ffordd, gan gynnwys llwyddiant ym myd chwaraeon yn ystod ei hieuenctid.

Uwchlaw popeth roedd ei theulu a'i chartref yn golygu popeth iddi ac roedd yn hynod o falch o lwyddiant y bechgyn yn eu gwahanol feysydd ac yn fam-gu balch iawn i Daniel, Lewis, Betsan a Llunos.

Roedd ei hangladd yn breifet yn ôl ei dymuniad. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog mewn oedfa dawel yn Arberth. Rhoddwyd ei llwch i orffwys yn ddiweddarach ym mynwent y dref.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Emyr, y bechgyn Gareth a Nefydd a'u teuluoedd, ac hefyd â Megan, ei chwaer.

Dyma englyn o waith ei thad S O Thomas a ymddangosodd ar daflen goffa Eluned:

Diwyd oedd ar hyd y daith - un a fu'n
Fwyn fam a chydymaith,
Diamau nid â ymaith
Na'i haberth na gwerth ei gwaith.

Y DDIWEDDAR TINA CHARLES

Gyda thristwch mawr y coffawn Tina a fu farw'n dawel yn Ysbyty Glangwili ar 22 Hydref 2018. Yn enedigol o'r Barri, magwyd Tina ar aelwyd di-Gymraeg yn llawn cariad. Daeth dylanwadau cryf arni pan oedd yn ei harddegau - yn Ysgol Ramadeg y Barri lle ysgogodd Mair Elvet Thomas ei diddordeb yn y Gymraeg. Hefyd, daeth yn aelod o Glwb Ieuencid Capel Salem, Y Barri, gyda'i chylch o ffrindiau ysgol ac yna ddechrau mynychu'r capel a dod yn aelod.

Wedi cwrdd ag Alun ym Mhrifysgol Aberystwyth, priodi ac ymgartrefu yng Nghaerffili, Caergybi, Wrecsam a Chaerfyrddin. Roedd ei bywyd yn troi'n bennaf o gwmpas y teulu a'r capel a gweithgareddau Cymraeg ym mhob man y bu'n byw. Roedd yn ffyddlon i bob agwedd ar fywyd yr eglwys. Gwnaeth gyfraniad sylweddol i Ysgol Sul Y Priordy, a mawr oedd y parch ati gan blant a theuluoedd yr eglwys. Bu'n cyd-olygu Papur Priordy gydag Alun o'r cychwyn cyntaf, gan fuddsoddi oriau bob mis yn ei baratoi, ac yn arbennig y Rhwydwaith. Mawr yw ein dyled iddi fel eglwys, a mawr yw'r golled ar ei hôl.

Cymhwysodd fel llyfrgellydd a dod yn rhugl yn y Gymraeg ac ennill gradd yn y Gymraeg drwy Brifysgol Aberystwyth yn ddiweddarach. Daliodd swyddi amrywiol yn ystod ei hoes ond y pinacel iddi oedd gwasanaethu am flynyddoedd fel tiwtor Cymraeg i Oedolion yng Nghaerfyrddin, a gwneud llu o ffrindiau ymhlith y dysgwyr.

Bu'n angor i'r teulu. Ni fu bywyd heb ei dreialon. Bu colli baban ifanc yn ergyd drom ond profodd fendithion lawer wrth fagu Rhodri a Catrin. Ymfalchiai eu bod hwy a'u partneriaid a'u hwyryon yn Gymry Cymraeg. Bu'r blynyddoedd diwethaf yn rhai anodd ond fe'u hwynebodd yn ddewr a dirwgnach gan gadw'i ffydd a'i sirioldeb hyd y diwedd.

Daeth cynulleidfawr i'r Priordy ar 1 Tachwedd i oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith, a nifer wedi teithio'n bell i fod yno. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog gyda chymorth Y Parchgn Pryderi Llwyd Jones, Peter Cutts a'r Dr Gareth Roberts. Ymlwybrodd y teulu i Amlosgfa Arberth yn ddiweddarach yn y dydd ar gyfer gwasanaeth preifat.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Alun, a fu'n fawr ei ofal o Tina trwy gyfnod ei salwch blin. Cofiwn hefyd am Rhodri a Catrin a'u teuluoedd.

Diolch i Tudur Dylan am yr englyn hyfryd hwn:

Tina

Ei pharhad i'r eiliad ola' - a rhinwedd
yr enaid gadarna',
mynd trwy'r byd yn ddiwyd, dda
a'n tynnai oll at Tina.

Y DDIWEDDAR GWYNETH GRIFFITHS

Cofiwn yn annwyl am y ddiweddar Gwyneth Griffiths, Heol Bronwydd gynt a fu farw ar 25 Hydref 2018 yng Nghartref Parcwern, Rhydaman.

Magwyd Mrs Griffiths yn fferm Bryn Melyn, Pant-teg, ac roedd i'r ardal honno le cynnes iawn yn ei chalon o hyd. Bu'n amaethu gartref ar y fferm deuluol nes iddi gwrdd ag Ifan Griffiths, a symud i ffermio ym Mronwydd. Ni fwynhaoedd yr ieched gorau pan oedd yn ifanc, a rhaid oedd symud o'r fferm ac ymgartefu yn Heol Bronwydd - a chydag 92 Heol Bronwydd yr ydym wedi cysylltu Mrs Griffiths fyth ers hynny.

Bu'n dal nifer o swyddi gwahanol, yng nghegin caffi'r Mart, a chegin Ysgol Ystrad Tywi, mewn siop gemwaith yn y dref ac yna fel nyrs gynorthwyol yn Ysbyty Glangwili, a chyn ymddeol, bu'n gweithio yn y labordy patholeg yn yr un ysbyty. Gwnaeth ffrindiau da a'i chydweithwyr ym mhob un i'r llefydd hyn, a nifer ohonynt yn parhau i gadw mewn cyswllt â hi.

Roedd Gwyneth Griffiths yn wraig urddasol ac annwyl iawn, a'r parch mwyaf gan bawb a'i hadnabu tuag ati. Roedd yn ffyddlon iawn yn y Priordy tan i'w hieched dorri, yn mynychu bob bore Sul ac yn ymuno â'r dripiâu.

Bu'r aelwyd ar Heol Bronwydd yn gyrchfan i'r teulu, yn enwedig i'r wyrion a'r wyres, a phob un ag atgofion hyfryd o fam-gu annwyl a thyner.

Gŵyr pawb am y berthynas agos rhwng Gwyneth a'i hunig ferch Megan, a fu mor ofalus ohoni hyd y diwedd.

Cynhaliwyd ei hangladd, a oedd yn breifat, yn Nghapel Peniel ddydd Iau, 8 Tachwedd a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent y Capel gyda'i diweddar briod Ifan. Gwasanaethwyd gan ein Gweinidog gyda chymorth Y Parchgn Emyr Gwyn Evans ac Ifan George.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Megan a'i phriod Clive, Gareth, Menna, Iwan a'r teulu cyfan.

'Mi a ymdrechais ymdrech deg'



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Rhagfyr		Ionawr	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Chris Lloyd	Gareth Gravell	Sulwyn Thomas	Adrian Evans



BLODAU



Rhagfyr	2	Mair Lewis	Ionawr	6	Ann Bowyer
	9			13	
	16			20	Gladwen Meredith
	23	Hefina Lloyd		27	
	30				



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Rhagfyr	2	Hwyr	Enid Wyn Jones a Jan Davies
Ionawr	7	Bore	Alison Parsons a Ffion Parsons



YMWELWYR



Tachwedd / Rhagfyr	Gweinidog (Anrhegion Nadolig)
Ionawr / Chwefror	Janet Davies a Gloria Evans



DARLLENWYR



Rhagfyr	2	Heledd Tomos	Ionawr	6	Catrin Heledd
	9			13	
	16	Alun Charles		20	Elis Jones
	23	Philip Jones		27	Carys Morgans
	30				



CYHOEDDWYR



Rhagfyr	Gareth Gravell	Ionawr	Catrin H Jones
---------	----------------	--------	----------------



RYDYM yn parhau i glywed am enghreifftiau o gyd-ddigwyddiadau diddorol, fel plentyn ac un o'r rhieni'n dathlu pen-blwydd ar yr un diwrnod. Wel, ar 16 Rhagfyr bydd Osian, mab Tim a Rebecca Hayes, yn dathlu'i ben-blwydd yn 9 oed, ar yr un diwrnod â phen-blwydd ei fam. Wel, pen-blwydd hapus iawn i'r ddau ohonynt! Cofiwch roi gwybod os oes rhagor o gyd-ddigwyddiadau tebyg eto ymhlith aelodau'r capel?

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd wedi bod yn yr ysbyty a chael triniaeth, sef Catrin Haf Williams, Thelma Evans ac Erin, merch Carwyn a Non Edwards. Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylys y dyddiau hyn.

Cymerodd Elin Wyn Reynolds ran mewn rhaglen ddiweddar o **DCDC** ar **S4C** yn ei swyddogaeth fel cyndlynnydd dathliadau Cymru- Madagascar 2018. a gynhaliwyd yn Aberaeron ym mis Mehefin. Trefnwyd gweithgareddau gan Undeb yr Annibynwyr Cymrag i ddathlu dauganmlwyddiant ers i'r cenhadon cyntaf deithio o ardal Aberaeron i F Madagascar.

Cafodd Sulwyn Thomas ei gyfweld ar **Heno** ar **S4C** ar y diwrnod yr agorwyd **Yr Egin**, pencadlys newydd S4C, yn swyddogol yng Nghaerfyrddin.

Roedd mis Tachwedd yn fis codi ymwybyddiaeth canser y pancreas ac ar raglen **Bore Cothi** siaradodd Shan Cothi gyda Julie, merch ein Ann Griffiths ni, a'i ŵyr, Carwyn Oliver, mab y ddiweddar Alison a fu farw o'r afiechyd yn gynharach eleni. Mae'n diolch yn fawr i'r teulu am godi ymwybyddiaeth o'r canser ac ymdrechu mor galed i godi arian i helpu'r ymchwil iddo.



Bu cyfweiliad ar **Heno** ar **S4C** â Carys Edwards, Cyfarwyddwr Theatr Ieuencid Menter Cwm Gwendraeth ar noson agoriadol y cwmni o'r sioe SHGWL (y sgript gan Aneurin Karadok) yn Neuadd Pontyberem.

A llongyfarchiadau i Rhodri Wilkins, mab Henry a Bronwen Wilkins wrth i Evans and Wikins gael ei henwebu fel y siop deuluol orau yn y dref, gyda'r wobwr wedi'i threfnu gan Gyngor Sir Gâr, yr Atom a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

AC I GLOI, dymunwn yn dda i Huw Morgan sydd newydd symud i fyw i Gartref Cynnes yn Nhref Ioan. Cofion cynnes ato a gobeithio y bydd yn ymgartrefu'n dda ar ei aelwyd newydd.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ionawr i'n Gweinidog neu Alun Charles

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a' Lleucu Edwards am y lluniau'r mis hwn



MUNUD I FEDDWL

Bydd y Gweinidog ar *Munud i Feddwl* ar raglen y Post Cyntaf ar Radio Cymru bob bore Mercher am 7.20 yn ystod mis Rhagfyr



Dymuniadau da i bob un o'n darllenwyr dros yr Ŵyl a hefyd ein cyfeillion yn Salem, Caernarfon, gan ddiolch iddynt am anfon newyddion atom o fis i fis drwy Carys Morgans




**NADOLIG LLAWEN I AELODAU A CHYFEILLION Y PRIORDY
oddi wrth
BETI WYN A'R TEULU**

Diolch am bopeth yn ystod y flwyddyn



A RHYWBETH BACH ARALL ETO FYTH I'R HOSAN!



**CYMRU MEWN 100 GWRTHRYCH
gan Andrew Green**

Detholiad Andrew Green o'r can gwrthrych mwyaf arwyddocaol yn hanes Cymru, gyda ffotograffau hardd o'r gwrthrychau gan Rolant Dafis

Gomer £19.99



Y SULLIADUR



Rhagfyr	2	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Ein Gweinidog <i>Casgliad at Ganolfan Galw-i-Mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg</i> <i>Cynhelir y ddwy oedfa yn y Ffestri</i>	Cymun
	9	Bore Pnawn	Ymarfer i'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 y bore ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Gwasanaeth Nadolig y Priordy am 3.30. Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn, <i>Casgliad at yr Ysgol Sul</i> <i>Casgliad olaf er cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn</i> <i>Diwrnod olaf Apêl Teganau Cyngor Sir Gâr</i>	
	16	Bore Pnawn Hwyr	Oedfa i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yng Nghana Gwasanaeth Nadolig Cylch Meithrin Myrddin am 3 Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn Eglwys Crist am 7.30	
	23	Bore	Oedfa i'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog	
	30	Bore	Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog	

BORE NADOLIG - OEDFA DEULU YN Y PRIORDY AM 9 GYDA'N GWEINIDOG A'R BOBL IFAINC

Ionawr	6	Bore Hwyr	Cwrdd yr Ofalaeth gyda Catrin Heledd a'r Teulu a'n Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	13	Bore	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog. Lansio Apêl Madagasgar Cwrdd Eglwys i ddilyn	
	20	Bore P'nawn Hwyr	Y Parchedig Aled Edwards Oedfa i'r Ofalaeth am 2 ym Mancyfelin gyda'r Parchedig Aled Edwards Oedfa dan nawdd Cytûn yn Eglwys Crist am 5.00 ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol gyda'r Tra Pharchedig Sarah Rowland Jones, Deon Eglwys Gadeiriol Tyddewi'n pregethu	
	27	Bore	Ein Gweinidog	

CALENDUR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant YN- Ymarfer Gwasanaeth y Nadolig GN – Gwasanaeth y Nadolig								
Rhagfyr					Ionawr			
2	9	16	23	30	6	13	20	27
✓YN	YN am / GN pm	-	-	-	-	CP	✓	✓ PIP